

Cofnodion Chwefror 2.2.23

Cyfarfod yn y Neuadd a hefyd dros zoom.

Cyfieithydd heno ydoedd Delyth Davies, a diolchwyd iddi am ei gwaith.

Presenoldeb

Jane T Williams, Eirwyn Thomas, Robin Ward, Annwen Hughes, Gwynfor Owen, Helen Johns, Kevin Titley, John Evans, Luise Vassey (zoom),

Ymddiheuriadau – Nia Jones.

Yn Bresennol hefyd ydoedd cynrychiolydd o grwp Pobl – I arbed Llanbedr sef Lucy Powell.

Croesawyd hi I'r cyfarfod gan Eth y cadeirydd I drafod a diweddarau y Cyngoe ar yr hyn sy'n digwydd parthed y ffordd fynedfa Maes Awyr.

Hyn yn deillio o'r ffaith na chafwyd arian o gronfa Llywodraeth Prydain o'r levelling up. A'r ffaith nad yw Lee Waters yn cefnogi ffyrdd o'r fath yn enwedig yn y Gogledd.

POBL – grwp sy'n gweithio yn wirfoddol I geisio cael trefn yn Llanbedr – pwysu drwy gysylltu a gwahanol fudiadau I gael gwelliant yn Llanbedr ar gyfer y ffordd a diogelwch ar y ffordd.

Angen cydweithio gyda Cyngor Gwynedd, Cyngor Cymuned a Llywodraeth Cymru er mwyn pwysu a gyrru'n mlaen am ddiogelwch ffordd yma. Mae Llywodraeth Cymru wedi gadael ni I lawr meddai Lucy ac mae'n rhaid gneud hyn yn hysbys. Dyma mae POBL yn ei wneud, yn heddychlon wrth gwrs. Nid yw Cyngor Gwynedd yn fodlon gwario ychwaneg o arian ar yr opsiynau sydd yn deillio o'r "Road Review", ga neu bod yn gwybod I ffaith na fyddent yn weithredol. Bellach mae'r Ffordd Osgoi oddi ar y cynlluniau er bod amser I weithio et o ar hyn, medd Cyngor Gwynedd.

Gobeithio cynnal Cyfarfod Cyhoeddus eto gyda Cynghorydd Jane Taylor Williams yn siarad – 4.3.23

Os nad yw datblygiadau ffordd fynedfa ar y cerdiau yna mae'n rhaid gwrthwynebu unrhyw ddatblygiadau posib yn yr aerodrome – mae Dyfrig Siencyn yn cefnogi trafodaethau parthed hyn.

Wedi cael addewid gan Lee Waters ei fod yn fodlon cyfarfod gyda cynrychiolaeth fechan o grwp Pobl yn y Senedd. Lucy yn dweud ei bod wedi gofyn iddo ddod I Lanbedr, ond heb gydnabod hyn.

Pethau syml y gellid eu gwneud yw

1. Camerau ar y bont er mwyn cofnodi unrhyw achosion.
2. Emission tester
3. Ymdrechion gan yr Ysgol Gynradd parthed diogelwch ffordd a phosteri I hyrwyddo hyn.
4. Posibilrwydd o roi linc o wefan Cyngor Cymuned I wefan POBL.
5. Cyfarfod 4.3.23 – Neuadd neu y Maes Parcio Neuadd.
6. Ymroddiad yr Heddlu hefyd.
7. Ymgyrch Cerdded drwy'r Pentref – er mwyn codi sylw. Mawrth 25. Rhywbeth gweledol I godi proffeil bod Corridor Ardudwy yn bwysig, ond wedi cael ei ddiddymu gan Llywodraeth Cymru
RW ddim yn hapus nad yw y Cyngor Cymuned yn arwain ar hyn.
Bod llythyr Cyngor Gwynedd a 12 opsiwn arno ers 2009 dal mewn llaw. Pwysig i godi y materion hyn eto.
RW yn falch bod y pwyslais yn awr ar ddiogelwch ffordd.

Pasiwyd I'r Clerc anfon copi o'r llythyr yma I bob Cynghorydd er sylw.
Hefyd I gael pwyllgor I drafod rhain – 16 /2/23
Bod Gwynfor Owen fel Cynghorydd Sir ar ein rhan yn cael gwahoddiad hefyd.
Bod cynllun 20 mya yn cael ei roi ar yr agenda. Hyn yn dod I rym ym mis Medi/Hydref 2023.
Pwyslais ar Llanbedr Saff!!
RW – pwy sy'n arwain ar hyn!!
Diolchodd Eth I Lucy am ei hymroddiad a'i gwaith caled yn codi ymwybyddiaeth o'r holl drafferthion yn Llanbedr.

Aethpwyd ymlaen a materion misol y Cyngor

Buddiant – AH parthed cais am arian gan Ysgol Ardudwy – cae pob tywydd.

Cofnodion – derbyn cofnodion cyfarfod lonawr fel rhai cywir.
Cofnodi hefyd e byst a dderbynniwyd gan RW a LV parthed ail edrych ar y gyllideb. Ar tri dewis oedd gerbron,
1 Cadw fel y ma ear hyn o bryd £15000 (dim yn ddigon)
2. Codi I £17500 (hyn yn bosib ond ddim yn cadw digon I wneud yr holl waith sydd ei angen)
3. £20000 – pasiwyd I wneud hyn.
Roedd 4 eisiau cynnal cyfarfod arall, ond yn dal I gadw y swm yn £20000.
RW yn hapus bod hyn wedi cael ei roi gerbron, a mwy o wybodaeth parthed y fynwent wei eu hegluro.
Cafwyd adroddiad cyllid.
Dim gwariant ar lwfansau Cynghorwyr.
Rhoddion 137 – pasiwyd I gyfrannu £450 tuag at cae gwyrdd pob tywydd Ysgol Ardudwy.
Yn y Banc diwedd lonawr ydoedd £23187.55
Derbynniwyd £55.00 gan Clare Cousins am gael gosod plac er cof ar wal y fynwent.
Bydd costau banc angen mynd allan ar yr 19 o chwefror – yn £5.40
Wedi talu £8.00 at rhent y Neuadd
£35 cwrs hyfforddiant
£7.80 ffioedd banc

Adroddiad gan AH

Cynllunio – Pods ger Salem – Parc Cenedlaethol wedi gwrthod hwn.

Materion eraill Cyngor Gwynedd

1. Toiledau – wedi ail agor - yn cael eu paentio ar hyn o bryd.
2. Gostwng kerbs ger Ty Mawr – gwnaethpwyd hyn yn syth.
3. Twll yn y ffordd ger y toiledau – wedi ei drwshio.
4. Llinellau Melyn ger Llys Brithyll – wedi ei wneud.
5. Llinellau melyn Beser – bod Eiliw Williams Heddlu am gael gair gyda perchnogion Ty Capel Beser parthed hyn a'r gwrthwynebiadau sydd wedi cael eu nodi o'r blaen.
6. Siomedig nad oedd arian ar gyfer Llanbedr yn y Lefelling Up.
7. Tim tacluso wedi bod ar waith yn Llanbedr – brwshio palmant a'r ffordd. Wedi altro.

Adroddiad gan Gwynfor Owen.

1. Ffordd Osgoi – yn nodi tristwch I'r ymateb bod yna ddi cyllid ar gael. Arian oedd I fod yn lle arian Ewrop ar gyfer y Gorllewin a'r Canolbarth.

Bod Lee Waters yn honi nad yw Cyngor Gwynedd am siarad ag o. Hyn yn gelwydd noeth.

Beth yw bwriad Vaughn Gethin parthed datblygiadau l'r economi yn lleol?

Gresyn nad yw Lee Waters am gyfarfod yn Llanbedr. Gwynfor hefyd yn ceisio cael cyfarfod rhwng Vaughn Gethin, Lee Waters.

Siom o'r mwyaf meddai . Criw o Swyddogion wedi gneud cais dilys am yr arian . Cais sy'n rhan o lwybr gwyrdd Gwynedd. Gweithio o'r gwaelod l fyny – dyma yw llais y bobl

1. Wedi derbyn cwyn parthed diffyg palmentydd drwy'r pentref.
2. Pyst ochr y r afon ffordd Mochras – yn mynd l gael eu harchwilio
3. Barrier haern dros fynedfa y maes picnic – wedi hanner ei drwshio. Ond ddim yn fodlon gyda'r Gwaith.
4. 20 mya – gwedd Llywodraeth l ddod l rym mis Medi – Hydref 2023. Hyn yn cael ei weithredu gan Gyngor Gwynedd ble bynnag mae'r terfyn 30 mya presennol. Angen trafodaeth parthed hyn.
5. Un Newydd da bod Cyngor Gwynedd yn ail ddechrau prynu tai ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghwynedd.

1 Ger y Llan wedi ei brynu ganddynt.

3 Bryn Deiliog – dal mewn trafodaethau parthed hwn.

Arian lefi ail dai yn talu am y prosiect yma.

6. Cais am fin baw cwn ger gorsfaf dren Talwrn Bach – pawb yn cytuno gyda hyn. Falle wedyn bydd Transport for Wales yn fodlon rhoi bin sbwriel ar y safle.

Bod yr orsaf dren y cysgodfan wedi cau am y tro – er mwyn uwchraddio a thacluso.

Materion Eraill yn y drafodaethau

1. Y Fynwent

- a) Angen archebu arwyddion ail gylchu l roi ar y safle
- b) Y safle yma yn fler iawn, coed wedi pydru
- c) Tyrchod daear yn codi yma – angen gwaredu hwy
- d) Beddi yn suddo – angen deud wrth Martin Kerr.
- e) Llwybr yn fler at y fynwent
- f) Clawdd yn chwalu – angen prisio am ail godi clawdd
- g) Pobl dal l blannu ar y beddau – angen rhybudd am hyn.
- h) Angen sgubo ffordd y fynwent
- i) Eiddew sydd yn dal y wal derfyn l fyny.
- j) Eth yn fodlon chwistrellu y chwyn ble nad oes gardd ar y terfyn.
- k) RW yn nodi falle bydda torri drain yn well.

2. Never Cut Bod JTW wedi cael pris am lechen Newydd £100 + Taw. Pasiwyd l archebu hwn.

Nododd JE bod y coedun ar never cut yn pydru hefyd.

Pasiwyd l ofyn faint fydda cost adeiladu clawdd fel mainc yma? Posibilrwydd o lechen neu goedun ar y sedd.???Pwy i ymgymherud a'r gwaith – anfon at 2 o'r rhain

Arfon Pugh, Harri Pugh, Meirion Evans, Charlie a Richard Roberts, Hogiau Dei Thomas.

Safle Ambiwylans Awyr – nifer fawr o e byst wedi dod parthed hwn. Pasiwyd I gefnogi cadw yr un fath. Bod ni angen yr un gwasanaeth a sydd gennym yn awr.

Bod rhai yn prynu baneri ar mwyn codi proffeil. Dim lle i'w gosod yn saff yn Llanbedr (medd RW)

Nododd Gwynfor Owen bod nhw yn chwilio am wirfoddolwyr i greu video o'u profiad gyda Ambiwylans Awyr.

Gwefan – tudalen We yn awr y n fyw. Nid yw'r Cofnodion 2022 arno hyd yma.

Defnydd bancio – bancio ar y we yn awr. Oes angen cyfrif cadw. Edrych i mewn i hyn.

Pont Llanbedr – Eiwyn yn codi'r mater bod nifer fawr o fobl yn cerdded y bont yn gwisgo siacedi llachar yn ddiweddar. Neb yn gwybod be oedd yn digwydd!!

20 mph – angen trafod hyn

JTW wedi bod yn siarad gyda un tirlfeddiannwr parthed safle parcio I residence yn unig.

Cofio hefyd bod tir feddianwr arall wedi cynnig tir ar gyfer parcio. Angen cysidro yr opsiynnau ar gyfer iechyd a diogelwch.

Y daith gerdded – march . Llawer o bobl anabl yn y pentref yn awr. Mae nhw yn poeni sut mae modd iddynt hwy fynd o un pen I'r pentref I'r llall.

Hefyd ymwybyddiaeth gyda plant yr Ysgol

Safle – llwybr at y cae chwarae o'r bont. Dwr yn croni yma, dwr o Plas Newydd – angen gneud gwaith yma. Cyfrifoldeb pwy ydi hyn? Holi Gwyn Evans – llwybrau Cyngor Gwynedd.

Pwyllgor I drafod opsiynnau ar gyfer gwella diogelwch ffordd yn Llanbedr. 16 o Chwefror am 7.30